**ATODIAD 3**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 22 Medi 2016 |
| **TEITL** | Mesurydd Cludiant THS/007 |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Ymateb yr Adran Rheoleiddio i fater penodol ynglŷn â mesur perfformiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. |

## 1. CEFNDIR

1.1 O ganlyniad i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu mae un mater penodol yn yr Adran Rheoleiddio wedi ei godi gan y pwyllgor angen ymateb iddo sef Mesur Perfformiad THS/007.

1.2 Mae'r craffwyr wedi nodi mai 70% oedd canran 2015/16 o ran oedolion sy'n 60 oed neu throsodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. Roedd yr aelodau yn dymuno derbyn gwybodaeth am y sefyllfa o ran pobl anabl llai na 60 oed gyda thocyn teithio rhatach ar y bws. Beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd a sut y mae hynny 'n cymharu â siroedd eraill.

## 2. ESBONIAD Y MESUR

2.1 Mae Mesur Perfformiad THS/007 yn fesur sydd yn cael ei baratoi gan yr Adran ar gyfer data cenedlaethol. Mae pob Awdurdod yng Nghymru yn gweithredu ar y cynllun a tharfu tocynnau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn cyd-fynd a gofynion Deddf Trafnidiaeth 2000. Mae yn werth nodi nad yw'r Adran yn adrodd ar y mesur yma fel rhan o'r adroddiadau perfformiad rheolaidd yr Adran.

**Gwybodaeth am y sefyllfa o ran pobl anabl llai na 60 oed gyda thocyn teithio rhatach ar y bws. Beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd a sut y mae hynny'n cymharu â siroedd eraill:**

2.2 Mae gan 29,861 o drigolion Gwynedd docyn teithio mantais ac mae 93% ohonynt yn bobl dros 60 oed. O'r 7% dan 60 oed maent un nai yn bobl anabl, pobl gyda nam golwg neu 'war veteran' ac mae rhai o'r rhain gyda chydymaith.


**<u>Pobl anabl gyda tocyn teithio mantais:</u>**

2.3 Mae 1377 o bobl anabl gyda thocyn teithio mantais a 616 gyda thocyn teithio mantais gyda chyd-ymdaith yng Ngwynedd. Mae hyn yn gyfystyr a 1.1% o boblogaeth y Sir (122,864). O ystyried Graff 1 gweler bod hyn yn is na chyfartaledd cenedlaethol (1.6%), ond yn debyg iawn i siroedd cyffelyb a Gwynedd sef, Môn (0.9%), Conwy (1.2%), Powys (0.8%), a Sir Benfro (1.3%).

2.4 Gweler o Graff 1 bod y siroedd trefol Abertawe, Caerdydd, Caerffili, Castell-nedd, Merthyr Tydfil a Torfaen gyda chanrannau o dros 2% o bobl anabl gyda thocynnau teithio mantais. Mae yn debygol fod hyn oherwydd bod llawer fwy o gyfleoedd cludiant cyhoeddus rheolaidd a dibynadwy mewn ardaloedd trefol o'i gymharu ag ardaloedd gwledig.

2.5 Mae yn ddiddorol iawn i nodi bod Merthyr Tydfil ymhlith y canran uchaf yn y Deyrnas Unedig o bobl sydd o fewn oed gweithio un nai ar fudd-dal salwch neu anableddau, gwelwch y linc amgaeedig [http://www.ft.com/cms/s/0/b19a852c-e459-11e5-bc31-138df2ae9ee6.html#axzz4IHDcKj1U].

**Graff 1: Canran o'r boblogaeth sirol gyda thocyn teithio mantais anabl:**





**Pobl anabl gyda thocyn teithio mantais nam ar y golwg:**

2.6 Mae 69 o drigolion Gwynedd yn berchen tocyn teithio mantais oherwydd bod ganddynt nam ar eu golwg. Mae 12 o'r rhain gyda chydymaith. Mae hyn yn gyfystyr a chanran fechan iawn o'r boblogaeth yng Ngwynedd (0.055%) sydd ddim yn bell iawn o'r cyfartaledd cenedlaethol (0.07%). Gweler cymhariaeth lawnach yn Graff 2 sydd yn cymharu'r canran ym mhob sir o bobl gyda nam ar y golwg gyda thocyn teithio mantais.

2.7 Eto, gellir gweld bod Gwynedd yn cymharu yn dda gyda Siroedd tebyg sef Môn (0.07%), Conwy (0.055%), Powys (0.015%), a Sir Benfro (0.08%).

2.8 Mae un sir sef Bro Morgannwg (0.36%) yn sefyll allan bod y cyfartaledd yn hynod uchel ond heblaw am Ben-y-bont ar Ogwr (0.11%) a Wrecsam (0.11%) mae'r canrannau yn eithaf tebyg dros weddill Cymru.

**Graff2: Canran o'r boblogaeth sirol gyda thocyn teithio mantais nam ar y golwg:**




## 3. CASGLIAD

3.1 Tebyg y gallwn ddarllen llawer iawn i mewn i'r ffigyrau ond mae eithaf clir bid Gwynedd yn cymharu yn agos at ganrannau siroedd tebyg o ran pobl anabl gyda thocynnau teithio mantais. Mae yn glir bod siroedd trefol gyda llawer mwy o ganran o'u poblogaeth bobl anabl gyda thocynnau teithio mantais, ond debyg fod hyn oherwydd bod nifer o wasanaethau cludiant cyhoeddus ar gael iddynt o'i gymharu ag ardaloedd gwledig.

3.2 O ran pobl gyda nam ar y golwg gyda thocynnau teithio mantais, mae cymhariaeth eithaf cyson rhwng Gwynedd a Siroedd eraill yng Nghymru ac eithrio Bro Morgannwg, Penybont ar Ogwr, a Wrecsam.